Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Options Kinsale

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Kinsale yn cynnig pecyn addysg a gofal preswyl integredig i ddisgyblion rhwng 8 a 19 oed sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu anawsterau cysylltiedig. Yn ddiweddar, mae wedi dechrau derbyn disgyblion ag anghenion mwy cymhleth hefyd.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn addysgu 9 disgybl o Flwyddyn 7 i'r cyfnod ôl-16. Daw disgyblion o awdurdodau yn Lloegr yn bennaf ac mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn cael eu gosod gan awdurdodau yng Nghymru. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig ac mae statws 'plentyn sy'n derbyn gofal' gan bron pob un o'r disgyblion. Nid oes unrhyw leoliadau dydd ar hyn o bryd.

Bu nifer o newidiadau i'r tîm arweinyddiaeth yn ystod y flwyddyn academaidd hon oherwydd salwch ymhlith staff. Ymunodd pennaeth newydd â'r ysgol yn Ebrill 2015.

## Prif ganfyddiadau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae disgyblion yn datblygu annibyniaeth a hyder yn unol â'u gallu a'u hanghenion, er enghraifft wrth iddynt ddysgu sut i ddefnyddio arian a threfnu taith
- Mae'r cyngor ysgol yn galluogi disgyblion i gymryd cyfrifoldeb a chyfrannu at benderfyniadau ysgol gyfan; caiff cofnodion y cyngor ysgol eu cofnodi gan ddefnyddio fformat lluniau deniadol a phriodol y gall disgyblion ei ddeall yn hawdd
- Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd dysgu effeithiol
- Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion disgyblion ac yn ennyn ymddiriedaeth
- Caiff gwersi eu cynllunio'n dda ac maent yn cynnwys ystod briodol o weithgareddau ac adnoddau
- Mae'r ysgol yn datblygu partneriaeth ddefnyddiol ag ysgol uwchradd leol i hybu rhyngweithio cymdeithasol y disgyblion, er enghraifft trwy weithgareddau'r Ysgol Goedwig
- Mae'r pennaeth newydd ei benodi wedi nodi meysydd gwella priodol ar gyfer yr ysgol

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- O ganlyniad i newidiadau mewn arweinyddiaeth, nid yw ychydig o bolisïau a

gweithdrefnau'r ysgol wedi'u hadolygu'n ddiweddar. Mae'r pennaeth wedi nodi bod hwn yn faes i'w wella.

- Mae polisi amddiffyn plant y sefydliad yn berthnasol ar draws y meysydd addysg a gofal preswyl. Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n glir ynghylch pa gamau penodol y dylai staff yr ysgol eu cymryd os oes ganddynt bryderon. Mae'r polisi'n nodi'r uwch swyddogion dynodedig ond nid yw'n cynnwys y pennaeth. Nid yw'n cynnwys y camau y dylai staff eu cymryd os gwneir honiad yn erbyn unigolyn dynodedig neu uwch aelod staff. Nid yw'r polisi wedi'i lofnodi. Mae'r strwythur adrodd yn ddryslyd oherwydd bod y siart llif sydd ynghlwm wrth y polisi yn cynghori staff i hysbysu eu rheolwr llinell am unrhyw bryderon yn hytrach na'r unigolyn/unigolion dynodedig. Mae'r templed ar gyfer cofnodi honiad yn ymwneud ag amddiffyn plant yn anaddas.
- Nid yw'r wybodaeth ofynnol am yr ysgol, fel y'i hamlinellir yn y rheoliadau, bob amser ar gael yn hawdd i rieni/gofalwyr.
- Nid yw'r weithdrefn gwyno yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer gwrandawiad gerbron panel yn glir.
- Nid yw prosesau'r ysgol ar gyfer asesu perfformiad disgyblion yn ddigon systematig.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Diwygio'r polisi amddiffyn plant i sicrhau bod y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer staff sy'n gweithio yn yr ysgol yn glir; sicrhau bod y polisi yn cynnwys y camau y dylai'r ysgol eu cymryd pe bai honiad yn cael ei wneud yn erbyn unigolyn dynodedig neu uwch aelod staff

A3 Gwella asesu gwaelodlin a systemau i fonitro perfformiad disgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Darparu ystod briodol o gyrsiau achrededig i fodloni anghenion cyfnewidiol ac amrywiol disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae cyrsiau wedi'u teilwra'n briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau annibyniaeth disgyblion trwy unedau astudio perthnasol, er enghraifft sut i deithio'n annibynnol a sut i ddelio ag arian. Eleni, mae'r ysgol wedi derbyn statws cymeradwy i ddarparu achrediad allanol gan ystod o ddarparwyr addas er mwyn mynd i'r afael ag anghenion academaidd disgyblion mwy abl.

**Argymhelliad 2: Datblygu ymhellach ffyrdd i ddadansoddi data asesu er mwyn gwella cynllunio ar bob lefel**

Ni aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Nid oes asesiad gwaelodlin ffurfiol o berfformiad addysgol disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae staff yn dibynnu ar ddata cyfeirio cychwynnol am ddisgyblion unigol i lunio barn am berfformiad disgyblion. Mae'r asesu hyn yn rhy anffurfiol. Mae tîm clinigol y sefydliad yn cynnal asesiadau gwaelodlin o ddisgyblion i nodi anghenion synhwyraidd ac anghenion iaith a lleferydd disgyblion.

Mae staff, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd a therapyddion galwedigaethol, yn gweithio fel tîm i gynllunio ac adolygu targedau yng nghynlluniau addysg unigol a chynlluniau cymorth ymddygiad disgyblion.

Fodd bynnag, mae asesu systematig parhaus o berfformiad disgyblion gan yr ysgol wedi llithro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd newidiadau i'r staff. Mae'r ysgol yn adolygu ei gweithdrefnau ar hyn o bryd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. I gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol er mwyn cydymffurfio â chylchlythyr 158/2015 Llywodraeth Cymru 158/2015 '*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'* [3(2b)]

## Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

## Safon 6: Darparu gwybodaeth

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. I gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol ddarparu'r canlynol i rieni/gofalwyr os gofynnant amdanynt:

- Manylion polisïau yn ymwneud â bwlio, amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, hybu ymddygiad da, a chosbau sy'n cael eu mabwysiadu os bydd disgyblion yn camymddwyn [6(2h)]
- Y weithdrefn gwyno a fabwysiadwyd gan yr ysgol, ynghyd â manylion am nifer y cwynion a gofrestrwyd yn unol â'r weithdrefn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol [6(2j)]
- Nifer y staff a gyflogir yn yr ysgol, gan gynnwys staff dros dro, a chrynodeb o'u cymwysterau [6(2k)]

## Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. I gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol sicrhau:

- Os nad yw'r rhieni yn fodlon â'r ymateb i gŵyn ysgrifenedig, bod darpariaeth ar gyfer sefydlu gwrandawiad gerbron panel a benodir gan y perchennog, a rhaid i'r panel gynnwys o leiaf dri o bobl nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r materion sy'n rhan o'r gŵyn. [7(f)]
- Os bydd panel yn gwrando ar gŵyn, rhaid cynnwys darpariaeth sef bod un unigolyn ar y panel yn annibynnol ar y rheolwyr a'r gwaith o gynnal yr ysgol. [7(g)]
- Bod y weithdrefn yn caniatáu i rieni fynychu gwrandawiad y panel a chael cwmni, os ydynt yn dymuno hynny. [7(h)]

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol New Options (Kinsale) |
| **Rhif yr ysgol** | 664/6004 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 24/06/2015 |
| **Perchennog** | New Options Ltd |
| **Staff** | Pennaeth / 4 athro amser llawn (gyda statws athro cymwysedig) / 3 thiwtor amser llawn / 10 gweithiwr cymorth |
| **Nifer y disgyblion** | 9 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth breswyl 52 wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac anghenion cymhleth |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 26/03/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 27/01/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 19/05/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Tîm |